*Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cymdeithas CYSAGau Cymru, 13 Mehefin 2024, 15.15 – 15.45, Prifysgol Wrecsam*

*Wales Association of SACREs AGM meeting, 13 June 2024, 15.15–15.45, Wrexham University*

**Yn bresennol**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ynys Môn / *Anglesey***<br>Rheinallt Thomas<br><br>**Blaenau Gwent**<br><br>**Pen-y- bont ar Ogwr**<br>Alice Parry (AP)<br>Edward Evans (EE)<br><br>**Caerffili**<br><br>**Caerdydd**<br>Rheinallt Thomas<br><br>**Sir Gaerfyrddin**<br><br>**Ceredigion**<br>Rhianydd James (RJ)<br><br>**Conwy**<br>Phil Lord (PL) | **Sir Ddinbych**<br><br>Phil Lord (PL)<br>Jennie Downes (JD)<br>Roger Boon (RB)<br>Nicholas Richter (NR)<br><br>**Sir y Fflint**<br>Vicky Barlow (VB)<br>Lyn Oakes (LO)<br><br>**Gwynedd**<br><br>**Merthyr Tudful**<br><br>**Sir Fynwy**<br><br>**Castell -nedd Port Talbot**<br>Rachel Samuel (RS)<br><br>**Casnewydd** | **Powys**<br>John Mitson (JM)<br><br>**Rhondda Cynon Taf**<br>Mathew Maidment (MM)<br><br>**Torfaen**<br><br>**Bro Morganwg**<br>Tyler Saunders (TS)<br><br>**Wrecsam**<br>Tania ap Siôn (TS)<br>Libby Jones (LJ **)**<br>Vaughan Salisbury (VS)<br><br>**PYCAG**<br>Paula Webber (PW)<br><br>***EFTRE***<br>Phil Lord (PL)<br><br>**Consortiwm Canol y De**<br><br>**EAS** | ***Arsyllwyr:***<br>**REMW**<br>Paul Morgan<br>**CBAC**<br><br>**ESTYN**<br><br>**Llywodraeth Cymru**<br><br>**REC**<br><br>**Eglwys yng Nghymru**<br><br>**Gwasanaeth Addysg Gatholig**<br><br>**Cymwysterau Cymru**<br><br>**ADEW**<br><br>**Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant**<br><br>**Cofnodion**<br>Libby Jones |

DRAFT

**Cofnodion y cyfarfod**

1. **Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd ar Microsoft TEAMS ar 29 Mehefin 2023**

   Croeswodd TaS bawb i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Yn dilyn ychwanegiad at y rhestr bresenoldeb (Ellie Chard, Sir Ddinbych) cynigiodd RS dderbyn y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2023 ac eiliodd PL.

   **Materion yn Codi**

   Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

2. **Adroddiad CCYSAGAUC ar gyfer 2023-24**

   Cyflwynodd TaS adroddiad CCYSAGAUC ar gyfer 2023-2024 ac adroddodd ar y canlynol:

   Bu’n flwyddyn brysur iawn arall i CCYSAGauC, yn enwedig gyda'r paratoadau ar gyfer Cynhadledd CCYSAGauC, a oedd wedi cymryd llawer o amser ac egni.

   Eleni mae'r gymdeithas wedi cyfarfod dair gwaith, unwaith bob tymor. Cynhaliwyd cyfarfod yr Hydref gan CYSAG / CYS Rhondda Cynon Taf ar 25 Hydref, 2023 drwy Zoom. Cynhaliwyd cyfarfod y Gwanwyn gan CYSAG / CYS Sir Gaerfyrddin ar 5 Mawrth, 2023 drwy Zoom. Disodlwyd cyfarfod yr haf gan Ddiwrnod Cynhadledd CGM CCYSAGauC (mewn partneriaeth â PYCAG) ar 13 Mehefin, 2024 a gynhaliwyd yn Wrecsam. Mae CYSAGau Cymru yn ddiolchgar iawn am gefnogaeth barhaus y CYSAGau a’r CYSau wrth iddynt gynnal y cyfarfodydd hyn.

   Cyfarfu’r Pwyllgor Gwaith hefyd bob tymor drwy Zoom. Roedd gan y Pwyllgor agenda lawn drwy gydol y flwyddyn, a oedd yn cynnwys yr eitemau a'r gweithgareddau canlynol:

   ⇒ Ystyriaeth barhaus o'r Cwricwlwm i Gymru ac ymateb i ddatblygiadau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â CGM ac Addysg Grefyddol o fewn y Cwricwlwm i Gymru.

   ⇒ Cyngor a chefnogaeth a roddwyd i Ymgynghorwyr a CYSAGau / CYSau mewn ymateb i'w hymholiadau. Roedd hyn yn cynnwys creu infograffeg 'Sut rydym yn cefnogi ein aelod-GYSAGau’ a rannwyd fel copi caled yn y Gynhadledd.

   ⇒ Cyfarfu cynrychiolwyr o Bwyllgor Gwaith CCYSAGauC (gyda chynrychiolydd o PYCAG) â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru fel rhan o gylch rheolaidd o gyfarfodydd sefydledig CCYSAGauC. Rhoddodd y cyfarfodydd hyn gyfle i godi materion o bwys i GYSAGau / CYSau lleol. Yn ogystal, roedd eitemau ar yr agenda yn cynnwys yr argyfwng recriwtio mewn TGAU a Safon Uwch ac AGA mewn Addysg Grefyddol, adnoddau dysgu proffesiynol, agweddau ar grynodeb y ddeddfwriaeth ar Hwb, a chyflwyno adroddiadau blynyddol y CYS ymhlith materion amserol eraill. Mae'r mater argyfwng recriwtio yn cael ei symud ymlaen gyda Kevin Palmer o Lywodraeth Cymru mewn sgwrs â CCYSAGauC.

   ⇒ CCYSAGauC yn cwblhau ail gam y bartneriaeth ddysgu broffesiynol genedlaethol fawr rhwng Llywodraeth Cymru a CCYSAGauC. Mae'r ail swp o adnoddau dysgu proffesiynol cenedlaethol yn aros i gael eu cyhoeddi ar Hwb Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Mae

ansawdd yr holl adnoddau'n cael ei sicrhau'n drylwyr cyn eu cyhoeddi ar Hwb Llywodraeth Cymru.

⇒ Cyfarfu cynrychiolwyr o Bwyllgor Gwaith CCYSAGAUC (yn aml gyda chynrychiolydd o PYCAG) â gwahanol sefydliadau yng Nghymru a thu hwnt ar nifer o achlysuron drwy gydol y flwyddyn. Yng Nghymru, roedd hyn yn cynnwys nifer o gyfarfodydd â Chymwysterau Cymru mewn perthynas â'r cymwysterau 14-16.

⇒ Gwnaed gwaith sylweddol i baratoi ar gyfer Cynhadledd CGM CCYSAGauC 2024 mewn partneriaeth â PYCAG. Mae'r Gynhadledd wedi cynnwys cyfres am ddim o seminarau ar-lein cyn ac ar ôl Diwrnod y Gynhadledd yn nhymor yr haf yn ogystal â Diwrnod y Gynhadledd wyneb yn wyneb yn Wrecsam ar 13 Mehefin 2024.

⇒ Ariannodd CCYSAGauC athro i fynychu Cynhadledd EFTRE ym mis Awst 2023. Mynychwyd y Gynhadledd hefyd gan ddau Swyddog CCYSAGauC a oedd â ffynonellau cyllid amgen.

⇒ Cyflwynwyd y cyfrifon 2022-2023 yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr haf 2023:

Cyflwynwyd datganiad o gyfrifon ac adroddiad yn egluro'r wybodaeth.
Nodwyd bod incwm yn fwy na gwariant am y flwyddyn o £8969.44. Pob CYSAG / CYS wedi talu eu tanysgrifiadau am y flwyddyn. Nodwyd bod y sefyllfa ariannol yn parhau mewn cyflwr iach a bod lefel y cronfeydd sydd ar gael i CCYSAGauC i ariannu ei chynllun gweithgareddau yn galonogol, yn enwedig gyda Chynhadledd CCYSAGauC ar y gweill. Argymhellwyd a chytunwyd y byddai’r tanysgrifiad blynyddol ar gyfer 2023-2024 yn aros yr un fath yng ngoleuni’r amgylchiadau ariannol anodd presennol.

⇒ Yng Nghyfarfod Blynyddol Haf 2023 etholwyd dau aelod i'r Pwyllgor Gwaith am y cyfnod 2023-2026: Jenny Downes (CYSAG Sir Ddinbych) ac enwebiad ar y cyd Marged Williams a Tyler Saunders yn cynrychioli Bro Morganwg.

⇒ Gan nad oedd unrhyw 'gyfarfodydd corfforol' mae cyflwyniadau PYCAG wedi'u cadw i’r lleiafswm ac yn canolbwyntio ar y flaenoriaeth fwyaf pwysig.

- Roedd cyfarfod Rhondda Cynon Taf ar 25 Hydref 2023 yn cynnwys cyflwyniad gan Alice Parry, Ysgrifennydd CCYSAGauC: Trwy lygaid athro: Adroddiad o Gynhadledd Fforwm Ewropeaidd Athrawon Addysg Grefyddol (EFTRE).
- Roedd cyfarfod Sir Gaerfyrddin ar 5 Mawrth 2024 yn cynnwys cyflwyniadau gan Liz Thomas, Cyfarwyddwr Addysg Taleithiol yr Eglwys yng Nghymru, ar CGM Gwrthrychol, Beirniadol a Phlwraliaethol yn yr ystafell ddosbarth gynradd a Tania ap Sion, Cadeirydd CCYSAGauC, ar Beth mae Covid-19 yn ei ddatgelu i arbenigwyr addysg grefyddol yn Ewrop?
- Roedd Diwrnod y Gynhadledd ar 13 Mehefin 2024 yn Wrecsam yn cynnwys ystod eang o brif gyflwyniadau a gweithdai o bob cwr o Gymru. Ehangodd seminarau ar-lein cyn ac ar ôl y gynhadledd gwmpas y cyflwyniadau sydd ar gael i gefnogi CGM yn y Cwricwlwm i Gymru.

Cadarnhaodd TaS y bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyfieithu i'r Gymraeg ar ôl y cyfarfod ac y bydd ar gael yn ddwyieithog i'w ddosbarthu ymlaen i’r CYSAGau.

DRAFT

Ar ddiwedd ei chyfnod fel Cadeirydd CCYSAGauC, diolchodd TaS i bob CYSAG / CYS sy'n aelodau am eu hymrwymiad i'r Gymdeithas a'u cefnogaeth. Diolchodd TaS hefyd i aelodau'r Pwyllgor Gwaith am eu holl waith caled, hebddynt hwy ni fyddai gweithgareddau CCYSAGauC yn bosibl.

Llongyfarchodd RT CCYSAGauC ar gynhadledd lwyddiannus, gan gydnabod gwaith caled y trefnwyr a'r cyflwynwyr, ac etynnodd ei ddymuniadau gorau i TaS.

Diolchodd RB i TaS am adroddiad manwl iawn a holodd am effaith CCYSAGauC ar lefel yr ystafell ddosbarth.

Rhoddodd TaS yr ymateb canlynol:

Mae CCYSAGauC yn gymdeithas sy'n dwyn ynghyd CYSau a phartneriaid, e.e. PYCAG, Llywodraeth Cymru, Estyn, a Chymwysterau Cymru ymhlith eraill. Heb CCYSAGauC, ni fyddai'r perthnasoedd, y sgyrsiau a'r prosiectau dilynol pwysig hyn yn digwydd yn y ffordd y maent yn digwydd. Mae pethau fel y modiwlau dysgu proffesiynol CGM pwrpasol ar Hwb a chyfleoedd ac adnoddau dysgu proffesiynol Cynhadledd CCYSAGauC yn uniongyrchol berthnasol i'r ystafell ddosbarth, ac mae holl waith CCYSAGauC, yr hyn a welir a'r anweladwy, yn cael effaith sy'n diferu i lawr y dosbarth.

Gwnaeth PW sylwadau ar y berthynas agos rhwng CCYSAGauC a PYCAG. Mae pob Ymgynghorydd yng Nghymru yn aelod o PYCAG ac yn mynychu cyfarfodydd CCYSAGauC yn rheolaidd, sy'n golygu eu bod yn wybodus ac yn gallu cefnogi eu hawdurdodau lleol a'u hysgolion. Mae CCYSAGauC wedi helpu i lunio sut olwg sydd ar CGM yng Nghymru ac mae'n parhau i ddarparu parhad yng Nghymru, gan barhau i barchu penderfyniadau lleol.

**3. Adroddiad y Trysorydd**

Cyflwynodd JM, Trysorydd CCYSAGauC, yr adroddiad ar gyfer 2023-2024.

Yn ystod y flwyddyn, roedd gwariant yn fwy na'r incwm o £3,718.66. Eglurir y rhesymau dros hyn yn adroddiad y Trysorydd ac maent yn ymwneud yn bennaf â thaliadau a dderbyniwyd ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol hon. Roedd y balans ar ddechrau'r flwyddyn yn £54,472.23 ac ar ddiwedd y flwyddyn yn £50,753.57. Felly, mae cyllid CCYSAGauC yn parhau mewn cyflwr iach ac mae lefel y cronfeydd sydd ar gael i CCYSAGauC, i ariannu ei gweithgareddau arfaethedig, yn galonogol. Mae hyn yn arbennig o bwysig oherwydd y cyllid sylweddol sydd ei angen i dalu costau sylweddol Cynhadledd CCYSAGauC, y bydd ei hanfonebau'n cael eu talu o gyllideb 2024-2025. Rhagwelir y bydd y cyfrifon yn edrych yn eithaf gwahanol y flwyddyn nesaf.

⇒ Y brif ffynhonnell incwm yw tanysgrifiadau blynyddol. Mae hyn wedi arwain at incwm o £7,920.00 sy'n cynrychioli'r 16 tanysgrifiad a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae'r 4 tanysgrifiad CYSAG sy'n weddill ar gyfer 2023/2024 bellach wedi'u derbyn.

⇒ Y prif wariant yw cost cynnal y cyfarfodydd gan gynnwys cyfieithu, cynhyrchu cofnodion a threfniadau ysgrifenyddol.

Cynigiodd EE fabwysiadu'r datganiad cyfrifon ac eiliodd AP.

Nododd JM fod proffil uwch CCYSAGauC a'r gwaith pwysig y mae'n ei wneud i gefnogi CYSau i helpu eu hysgolion gydag CGM yn y Cwricwlwm i Gymru, yn dangos bod y Gymdeithas yn werth tanysgrifio iddi.

Cododd JM y cynnig i'r Pwyllgor Gwaith, oherwydd yr anawsterau ariannol y mae ALlau yn eu profi, y byddai'n briodol peidio â chodi'r tanysgrifiad ar gyfer 2024/25. Cefnogwyd argymhelliad JM gan y Pwyllgor Gwaith.

Cynigiodd RT ac eiliodd RS y cynnig y dylid cadw ffi tanysgrifio CCYSAGauC ar £495 ar gyfer 2023/2024.

Aeth JM drwy'r treuliau rheolaidd arfaethedig; nid yw'r rhain yn newid o flwyddyn i flwyddyn.

Cynigiodd RT ac eiliodd EE. Cytunwyd ar y treuliau rheolaidd.

Cadarnhaodd TaS y bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyfieithu i'r Gymraeg ar ôl y cyfarfod ac y bydd ar gael yn ddwyieithog i'w ddosbarthu ymlaen i'r CYSAGau a'r CYSau.

Diolchodd TaS i JM am ei waith ymroddedig yn rôl y Trysorydd.

**4. Cadarnhad y Cadeirydd**

Mae'r Is-gadeirydd Edward Evans yn symud i swydd y Cadeirydd.

**5. Ethol aelodau i'r Pwyllgor Gwaith**

Adroddodd TaS fod dau enwebiad wedi'u derbyn am y ddau le sydd ar gael. Yn ôl y cod ymarfer pan fydd nifer yr enwebiadau yn hafal i nifer y lleoedd, nid oes angen cynnal pleidlais.

Croesawodd TaS Rachel Samuel fel Is-gadeirydd, a Kathy Riddick sy'n parhau â'i rôl fel aelod Gweithredol o CCYSAGauC.

**6. Unrhyw Fater Arall sy'n berthnasol i'r Cyfarfod Blynyddol**
Dim

**7. Dyddiad y cyfarfod nesaf**
I'w archwilio a'i ddosbarthu cyn gynted â phosibl.

Diolchodd TaS i CYSAG a CYS Wrecsam am gynnal y cyfarfod heddiw ym Mhrifysgol Wrecsam. Diolchodd TaS hefyd i bawb a fynychodd y cyfarfod a'r cyfieithydd am eu gwaith rhagorol.

Daeth y cyfarfod i ben am 15.45 pm

DRAFT